

## DAFYDD ab OWAIN GWYNEDD (bu farw 1203)

**Enw:** Dafydd ab Owain Gwynedd  
**Dyddiad marw:** 1203  
**Priod:** Emma ferch Geoffrey o Anjou  
**Plentyn:** Wennour ferch Dafydd  
**Plentyn:** Owain ap Dafydd  
**Rhiant:** Christina ferch Gronw  
**Rhiant:** Owain ap Gruffydd ap Cynan  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Mab [Owain Gwynedd](#) a'i wraig [Christina](#), merch Gronw ab Owain ab Edwin. Gan fod y tad a'r fam yn gefnder a chyfnither nid oedd eu priodas yn cael ei harddel gan yr Eglwys ac felly ystyrir y plant yn anghyfreithlon.

Clywir sôn am Ddafydd y tro cyntaf yn 1157 pryd y cymerth ran yn ymgyrch sydyn coed Penarlâg lle y bu Harri II agos â cholli ei fywyd. Yn 1165 yr oedd wedi ymsefydlu yn nyffryn Clwyd; dechreuodd ryfela y flwyddyn honno gyda chyrch ar Degeingl lle y cafodd ysglyfaeth mawr. Rhoes marw ei dad ym mis Tachwedd 1170 gyfle newydd; ymosododd ef a'i frawd [Rhodri](#) ar eu hanner-brawd [Hywel ab Owain](#) mewn brwydr gerllaw Pentraeth ym Môn a'i ladd. Yn 1173 ymosododd ar hannerbrawd arall, [Maelgwn ab Owain](#), a'i yrru ar ffo o Fôn i lwerddon. Ei flwyddyn fwyaf lwyddiannus ydoedd 1174; troes allan ei holl gydymgeiswyr, a [Rhodri](#) yn eu plith, taflodd [Maelgwn](#) i garchar - yr oedd hwnnw wedi meiddio dychwelyd o lwerddon - ac am gyfnod byr bu'n teyrnasu ar Wunedd gyfan. I'r flwyddyn hon, fe ymddengys, y perthyn cân foliant [Gwilym Ryfel](#) iddo - geilw'r bardd ef yn frenin Cemais. Cymerth Dafydd ran y brenin yn helyntion enbyd 1173 ac felly bu mor hyf â gofyn am gael Emma, merch ordderch i Sieffre o Anjou (ac felly'n hanner-chwaer i'r brenin), yn wraig. Caniatâwyd ei gais - ond nid gyda llawer o frwdfrydedd - a phriodwyd y ddau yn haf 1174, treuliau'r briodasferch yn cael eu talu o goffrau arian y brenin.

Dyna uchafbwynt gyrfa Dafydd. Yn 1175 fe ddaeth newid. Ymosodwyd arno gan [Rodri](#), a oedd wedi dianc o'r carchar y taflasai Dafydd ef iddo, ac fe'i herlidiwyd dros afon Conwy i ran ddwyreiniol Gwynedd lle y gallai ddibynnu ar gael cymorth gan y Normaniaid. Nid oedd y newid wrth fodd [Gwalchmai](#), y bardd o Fôn; cwyna ef golli ei noddwr, sef Dafydd; ni chymerai [Rhodri](#), pennaeth newydd Môn, ddim diddordeb yng nghanu'r bardd. Daeth pethau ychydig yn well yn 1177; y flwyddyn honno, pan fu cynhadledd rhyngddynt yn Rhydychen, pleswyd gwr Emma pan roes y brenin iddo arglwyddiaethau Ellesmere a Hales. Ymddengys iddo ymsefydlu yn awr yn y Berfeddwlad, gyda chastell hardd ganddo (Rhuddlan) a edmygid gan [Gerallt Gymro](#) a fu'n aros noson yno, pan oedd gyda'r archesgob Baldwin, yng ngwanwyn 1188.

Yn 1194 cafodd ail ddyrnod gan ffawd. Cafodd ei boeni am beth amser gan ei nai ieuanc egniol, [Llywelyn ab Iorwerth](#), a ymrwymodd â'i gefndyr, meibion [Cynan ab Owain Gwynedd](#), ac a orchfygodd Ddafydd yn llwyr, gyda'u cymorth, mewn brwydr yn Aberconwy. Ni adawyd iddo ond tri chastell, a cholodd y rhain hyd yn oed yn 1197 pan daflwyd ef i garchar gan [Llywelyn](#). Trwy i'r archesgob Hubert gyfryngu ar ei ran fe'i rhyddhawyd yn 1198, ac ymneilltuodd i'w faenorau yn Lloegr a threulio yno weddill ei oes. Bu farw tua mis Mai 1203, wedi ennill iddo'i hun, medd [Gerallt Gymro](#), edmygedd y ddwy genedl oblegid iddo geisio cadw'r dafol yn wastad rhwng Cymry a Saeson. Rhoes Stocket a Cricket, trefi yn arglwyddiaeth Ellesmere, i abaty Haughmond ac ychwanegodd at yr eiddo a oedd gan y mynachty hwnnw eisoes yn Nefyn - yr oedd eglwys y lle hwnnw wedi ei rhoddi i Haughmond gan ei ewythr [Cadwaladr](#).

O'i wraig Emma cafodd Dafydd fab a merch. Dilynwyd ef yn Hales gan ei weddw a'i fab - a dyna sut y cafodd yr enw Halesowen. Aeth arglwyddiaeth Ellesmere yn ôl i feddiant brenin Lloegr, er iddi cyn bo hir gael Cymro yn arglwydd arni - [Llywelyn ab Iorwerth](#). Yn 1212, pan nad oedd John a [Llywelyn](#) ar delerau da, ceisiwyd gwneuthur Owain yn dywysog yn nwyrain Gwynedd yn lle ei dad. Ond ni chafodd hyn dderbyniad yn y wlad. Erbyn 1214 ymddengys fod Emma ac Owain wedi marw, oblegid yn y flwyddyn honno rhoddwyd Halesowen gan y brenin i Peter des Roches a sefydlodd dy yno i ganoniaid Premonstratensiaidd. Priodwyd eu merch ' Wennour ' â Meurig, mab Roger, un o farwniaid pwerus y gorau ac ynddo waed Cymreig; defnyddid ef yn fynych fel cyfieithydd rhwng y Cymry a'r Saeson. Cafodd hi Elson, tref yn Ellesmere, yn waddol, a bu iddi ddau fab, ' Wrennoc ' (Gronw) a Gwenwynwyn, a gafodd diroedd Meurig pan fu hwnnw farw yn 1200.

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 497, 515, 549, 550, 551, 552, 553, 565, 588, 589, 590, 613, 616

*Giraldi Cambrensis Opera* (1861–91), vi, 134, 137, 145

*The Myvyrian Archaiology of Wales (1801-1807)*, i, 198, 279-82, 418

*Antiquities of Shropshire* (1854–60), x, 234, 249, 253; xi, 31-5

*Calendar of Miscellaneous Inquisitions*, i, 161

*The Book of Fees (Testa de Nevill)*, 56

*Rotuli Chartarum* (1837), 188

*Public Record Office Pipe Rolls*, 1200, 170

*Rotuli Litterarum Clausarum in Turri Londinensi asservati* (1833–44), i, 174

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd ab Owain Gwynedd](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q654278](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

